



Adrodd ar berfformiad ysgolion – cwestiynau cyffredin ynghylch arholiadau a sefir yn gynnar

Cefndir

Ar 16 Hydref 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg newid i'r polisi ar adrodd ar berfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â sefyll arholiadau'n gynnar o 2019 ymlaen. Gallwch ddarllen y datganiad ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Nod y ddogfen Cwestiynau Cyffredin hon yw egluro'r polisi newydd a sut bydd yn effeithio ar weithdrefnau ysgolion wrth gofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau'n gynnar.

Ar hyn o bryd, mae newidiadau dros dro yn cael eu gwneud i'r trefniadau atebolrwydd a pherfformiad fel rhan o ddiwygio addysg trwy Dyfodol Llwyddiannus. Gan weithio gyda'r proffesiwn addysgu, llywodraeth leol, consortia, undebau ac arbenigwyr rhyngwladol, caiff y system atebolrwydd gyfredol ei hadolygu'n barhaus. Fel y mae ein cynllun gweithredu '*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl*' yn ei nodi, byddwn yn bwriadu cyhoeddi fframwaith gwerthuso a gwelliant newydd ar gyfer y system addysg gyfan yn ystod hydref 2018.

Beth yw'r polisi newydd a pham mae'n cael ei gyflwyno?

O haf 2019 ymlaen, dim ond canlyniad y tro cyntaf y dyfernir cymhwyster llawn (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol) i ddysgwyr fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad.

Bydd y newid hwn yn annog ysgolion i gofrestru dysgwyr pan fyddant yn hyderus bod y dysgwr yn barod i gael ei ganlyniad gorau posibl. Nid yw'n rhwystro dysgwr rhag ailsefyll pe byddai'r ysgol neu dysgwr yn dymuno gwneud hynny er mwyn gwella'r canlyniad, ond ni fydd canlyniad yr arholiad a ailsefir yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad yr ysgol, hyd yn oed os yw'r canlyniad yn well.

Pryd mae'r polisi hwn yn dod i rym a pha ddysgwyr yr effeithir arnynt?

Bydd y newid hwn yn cael ei roi ar waith ar gyfer adrodd ar berfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn haf 2019. At ddibenion mesurau perfformiad, golyga hyn yr effeithir ar ganlyniadau dysgwyr sydd ym Mlwyddyn 10 ar hyn o bryd (gan y byddant ym Mlwyddyn 11 yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19). Bydd canlyniadau disgyblion Blwyddyn 10 yng nghyfres Tachwedd 2017 yn cyfrif, felly.

Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar ddysgwyr sydd ym Mlwyddyn 9 ar hyn o bryd a'r rheini sy'n iau sydd eisoes wedi sefyll arholiadau am gymwysterau cyn i'r polisi hwn gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2017. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, yn achos pob dysgwr a gofrestrir yn gynnar ym mhob grŵp blwyddyn, y cynnig cyntaf fydd yn cyfrif.

Sylwch mai newid ar gyfer mesurau perfformiad ysgol gyfan yw hwn ac ni ddylai effeithio ar benderfyniadau i ddewis y llwybr cywir ar gyfer dysgwyr unigol ar sail beth sydd orau iddynt.

A yw'r polisi 'canlyniad cyntaf sy'n cyfrif' yn berthnasol i gymwysterau modiwl/unedol? Gall dysgwyr ailsefyll pob modiwl/uned unwaith – a yw hyn yn dal yn wir?

Mae'r polisi 'mynediad cyntaf yn cyfrif' yn berthnasol i gymwysterau modiwl/unedol, ond dylai ysgolion nodi bod y polisi'n gymwys i'r ardystiad terfynol o'r dyfarniad llawn, nid modiwlau/unedau sydd wedi ei sefyll neu ail-sefyll cyn y dyfarniad terfynol hwnnw. Felly, pan fo cymwysterau wedi'u cynllunio i fod yn fodiwl/unedol, nid yw canlyniad un modiwl yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad. Lle mae manylion y gymhwyster yn caniatáu ddysgwyr i ailsefyll modiwl unwaith, cyn y dyfarniad terfynol a cyfnewid y cymhwyster llawn, nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar y drefn o ailsefyll modiwlau unigol. Mae'r rheol 'canlyniad cyntaf sy'n cyfrif' yn berthnasol i'r cymhwyster cyfan ar ôl i'r dysgwr ei gwblhau, a chael gradd gyffredinol derfynol. Dyma yw'r rheol hefyd yn achos cymwysterau llawn sy'n cyfrannu tuag at fesur perfformiad Capi 9.

Fel yn achos cymwysterau eraill, mae hyn yn berthnasol i BTEC hefyd.

Sut bydd y polisi'n effeithio ar Fagloriaeth Cymru?

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â Chymwysterau Ategol. Mae angen bodloni gofynion y Dystysgrif a'r Cymwysterau er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r cymwysterau ategol yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol, Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith, a Mathemateg-Rhifedd neu Fathemateg, yn ogystal â thri chymhwyster TGAU arall.

Ni fydd newidiadau i'r polisi cofrestru cynnar yn effeithio ar allu dysgwyr i gyflawni Bagloriaeth Cymru. Y canlyniadau gorau, boed yn yr arholiad a gaiff ei sefyll yn gynnar neu unrhyw Cymhwyster Ategol a gaiff eu hailsefyll, fydd yn cyfrif tuag at lwyddo ym Magloriaeth Cymru.

O ran mesurau perfformiad, yr ymgais gyntaf ym mhob Cymhwyster Ategol (TGAU) fydd yn cyfrif, yn unol â'r newidiadau yn y ffordd y cofnodir perfformiad mewn arholiad a gaiff ei sefyll yn gynnar. Bydd Bagloriaeth Cymru yn parhau i gael ei defnyddio fel rhan o gyfres o fesurau, ynghyd â mesurau eraill fel Capió 9 a Lefel 2 cynhwysol.

Beth fydd yr effaith ar y polisi disgowntio? A yw'r polisi 'canlyniad cyntaf sy'n cyfrif' yn berthnasol i gymwysterau unigol neu'r rheini mewn grŵp disgowntio?

Y tro cyntaf y sefir cymwysterau fydd yn cyfrif ar gyfer mesurau perfformiad, a hynny ar sail eu Rhif Achredu Cymhwyster (QAN).

Pan fo dysgwr yn sefyll arholiadau TGAU tebyg, bydd rhain yn cael eu disgowntio a'u hadrodd yn y mesurau perfformiad gan ddefnyddio'r canlyniad cyntaf.

Pan fo dysgwyr yn sefyll arholiadau cymwysterau yn yr un pwnc ar lefelau gwahanol o fewn yr un cyfnod adrodd, er enghraifft TGAU a chymhwyster Uwch Gyfrannol neu Safon Uwch, y lefel uwch fydd yn cael ei hadrodd, felly canlyniad y cymhwyster Uwch Gyfrannol neu'r Safon Uwch yn yr achos hwn.

Defnyddir codau disgownt ar ôl y rheol 'canlyniad cyntaf'. Mae codau disgownt i'w gweld ar [QIW](#).

Beth am ddysgwyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer haenau gwahanol o'r un cymhwyster, er enghraifft mae Haen Sylfaenol, Haen Ganolradd a Haen Uwch mewn Mathemateg?

Y canlyniad cyntaf ar gyfer pob cymhwyster fydd yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad yn haf 2019, beth bynnag yw'r haen.

Nid yw rhai cymwysterau yn dilyn y patrwm cofrestru 'arferol'. Mae yna rai nad ydynt yn gymwysterau TGAU lle mae modd i ddysgwyr ennill lefelau cynyddol uwch y tu allan i'r amserlen academaidd arferol. Sut bydd rhain yn cael eu trin?

Bydd cymwysterau sydd wedi'u 'graddio', e.e. mewn Cerddoriaeth, a ddyfernir gan ABRSM, lle bydd disgyblion yn symud drwy'r graddau sydd ar gael ar gyfraddau gwahanol iawn, yn cael eu trin fel eithriad i'r rheol 'canlyniad cyntaf sy'n cyfrif'. Golyga hyn mai'r lefel uchaf a gyflawnir yn y mathau hyn o gymwysterau yn ystod y cyfnod adrodd dilys fydd yn cyfrif ar gyfer y mesurau perfformiad.

Mae rhai o'n dysgwyr yn dilyn cyrsiau ar gyfer cymwysterau y tu allan i'r ysgol. A fydd y rhain yn cyfrif yn yr un modd?

Bydd y cymwysterau hyn yn dal i gyfrif tuag at fesurau perfformiad yr ysgol y mae'r dysgwr yn ei mynychu, yn amodol ar y cyfyngiadau arferol. Byddant hefyd yn

amodol ar y polisi 'canlyniad cyntaf sy'n cyfrif', lle mae'r cymhwyster cyfan yn cael ei gyflwyno.

Sut bydd y polisi yn effeithio ar gyrsiau byr?

Y canlyniad cyntaf fydd yn dal i gyfrif tuag at fesurau perfformiad. Bydd angen i ysgolion ystyried lles pennaf y dysgwr wrth benderfynu a ddylid ei gofrestru ar gyfer cwrs byr neu gwrs llawn.